OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2940 (Cy.257)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - -	*3 Tachwedd 2009*
Yn dod i rym - -	*25 Tachwedd 2009*

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1 ac 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) (Diwygio) 2009. Mae'n gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 25 Tachwedd 2009.

Diwygio

2.—(1) Diwygir Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn lle erthygl 5 rhodder—

"**Datgan parth rheolaeth dros dro**

5.—(1) Os bydd Gweinidogion Cymru'n amau—

(a) bod clefyd yn bodoli ar unrhyw fangre; neu

(b) y gall anifeiliaid ar unrhyw fangre fod neu fod wedi bod mewn cyffyrddiad â chlefyd,

cânt ddatgan yn ysgrifenedig fod ardal yn barth rheolaeth dros dro.

(2) Rhaid i radiws parth rheolaeth dros dro fod yn 1 cilometr o leiaf, neu'n fwy os yw Gweinidogion Cymru yn barnu bod hynny'n angenrheidiol er mwyn atal clefyd rhag ymledu.

(**1**) 1981 p.22.

(**2**) *Gweler* adran 86(1) i gael diffiniad o "the Ministers". Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 2003/399 (Cy.56).